| | | |
|---|---|---|
| | **Dyddiad creu:** | 01/01/2017 |
| | **Dyddiad cyhoeddi:** | 25/01/2023 |
| | **Rhif y fersiwn:** | 1.03 |

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Man Gweithio:** | Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth |
| **Manylion Cyswllt:** | 080 100 1727<br>E-bost: CyswlltAcAtgyfeirio@caerffili.gov.uk |
| | Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd Caerffili (FfATC) – atgyfeiriadau ar gyfer ymyriad |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych pan fyddwch yn cwblhau ffurflen Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd Caerffili (FfATC). |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth oddi wrth ystod eang o ddarparwyr yn ardal bwrdeistref Caerffili.

- Os oes angen Gwybodaeth, ni fyddwn yn cofnodi unrhyw wybodaeth amdanoch ar ein systemau.
- Os oes angen Cyngor, bydd angen i ni gofnodi eich enw, manylion cyswllt a natur y cyngor a ddarperir ar gyfer ein cofnodion.
- Os oes angen Cymorth (atgyfeirio at wasanaeth cefnogi), gyda'ch caniatâd, byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch er mwyn cynnig y gefnogaeth gywir i ddiwallu'ch anghenion. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu ar y Ffurflen Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd Caerffili (FfATC). Bydd y Ffurflen FfATC hon yn cael ei hanfon ymlaen yn ddiogel i Wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) ar gyfer asesu a dyrannu i wasanaeth cymorth priodol. Fel arall, gellir anfon Ffurflen FfATC yn uniongyrchol i Wasanaeth CBSC perthnasol e.e. Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl neu'r Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Panel Lles Emosiynol Plant. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei rannu'n ddiogel.

Efallai y bydd y gwasanaeth cymorth a ddyrennir yn wasanaeth CBSC neu efallai y bydd gwasanaeth arall yn cael ei gynnig gan sefydliad arall ond bydd ganddynt yr arbenigedd cywir i gynnig cymorth i ddiwallu'r anghenion hynny a nodwyd. Os oes gwybodaeth benodol nad ydych am gael ei rhannu neu os oes sefydliadau nad ydych yn dymuno gweithio gyda nhw, rhaid i chi roi gwybod i ni pan fydd y Ffurflen FfATC yn cael ei chwblhau fel nad yw eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo iddynt a gellir dod o hyd i ddewis arall.

Os ydych yn cytuno i gwblhau a rhannu eich gwybodaeth am eich FfATC, bydd hyn yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu ledled asiantaethau ac ysgolion o asesiadau hanesyddol o'r FfATC a gellir defnyddio'r FfATC presennol i goladu'r FfATC yn y dyfodol. Mae hyn yn atal teuluoedd rhag ailadrodd hanes eu teulu, mae'n sicrhau bod FfATC y teulu yn dilyn eu taith, a bod eu hanghenion am gymorth yn cael eu diweddaru ar eu FfATC drwy gydol eu hymgysylltiad â gwasanaethau. Os na roddir caniatâd, ni fydd gwybodaeth y teulu yn cael ei rhannu.

Efallai y bydd angen i'r gwasanaeth cefnogi a ddyrennir rannu'ch gwybodaeth ymhellach. Os yw hyn yn wir, darperir gwybodaeth bellach ar sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio.

Ar ôl cwblhau'ch gwaith gyda'r gwasanaeth cymorth, bydd adborth fel sut yr ydych wedi ymgysylltu â hwy a sut y cafodd eich nodau eu diwallu yn cael ei rannu yn ôl i wasanaethau CBSC fel y Blynyddoedd Cynnar, Cefnogi Pobl a'r Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Panel Lles Emosiynol Plant.

Os nodir bod gennych anghenion ychwanegol, gyda'ch caniatâd, bydd eich Ffurflen FfATC yn cael ei hanfon ymlaen yn ddiogel i Wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth CBSC, y Blynyddoedd Cynnar, Cefnogi Pobl a'r Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Panel Lles Emosiynol Plant i gynnal asesiad ychwanegol ac ar gyfer asesu, dyrannu a rhannu eich Ffurflen FfATC, yn ddiogel â gwasanaeth cymorth priodol ychwanegol.

Os credir, ar unrhyw gam o'r broses, y gallai plentyn fod mewn perygl, dilynir Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a gall hyn arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gallai hyn gynnwys sawl asiantaeth, er enghraifft yr heddlu, y gwasanaeth iechyd neu'r maes addysg.

Os credir y gallai plentyn neu oedolyn agored i niwed fod mewn perygl, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymchwilio a dilynir Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a allai arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gallai hyn gynnwys sawl asiantaeth, er enghraifft yr heddlu, y gwasanaeth iechyd a'r maes addysg. Hefyd, os ydych chi'n weithiwr proffesiynol/wirfoddolwr sy'n destun honiadau o gam-drin/esgeulustod, gallai hyn gynnwys eich cyflogwr.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Mae'n ofynnol i gael caniatâd defnyddiwr gwasanaeth er mwyn gweithredu proses y FfATC. Fodd bynnag, y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau yw tasg gyhoeddus fel yr amlinellir isod:

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Article 6 - 1e. processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;

Deddf Diogelu Data 2018 - Adran 8 (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

In Article 6(1) of the GDPR (lawfulness of processing), the reference in point (e) to processing of personal data that is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of the controller's official authority includes processing of personal data that is necessary for—

(a) the administration of justice,

(b) the exercise of a function of either House of Parliament,

(c) the exercise of a function conferred on a person by an enactment or rule of law,

(d) the exercise of a function of the Crown, a Minister of the Crown or a government department, or

(e) an activity that supports or promotes democratic engagement.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau. Os bydd unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categori hwn, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau.

Mae'r amod isod yn amod Erthygl 9 ac amod Erthygl 10 ar gyfer prosesu.

Deddf Diogelu Data 2018 – Atodlen 1 – Rhan 2 (Nid yw'r rhan hon ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.)

6 (1) This condition is met if the processing—
(a) is necessary for a purpose listed in sub-paragraph (2), and
(b) is necessary for reasons of substantial public interest.
(2) Those purposes are—
(a) the exercise of a function conferred on a person by an enactment or rule of law;
(b) the exercise of a function of the Crown, a Minister of the Crown or a government department.

Nodir y swyddogaeth a roddwyd i berson (CBSC) drwy ddeddfiad neu reolaeth gyfreithiol sy'n berthnasol i'r amodau uchod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf hon yn gosod saith nod llesiant i ddangos y math o Gymru yr ydym am ei gweld ac mae'n gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i weithio i gyflawni'r nodau hyn sy'n cynnwys:

- Cymru Ffyniannus
- Cymru Iachach
- Cymru Fwy Cyfartal

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Bydd eich darparwr dewisol Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cadw copi o'ch Ffurflen FfATC wedi'i chwblhau a fydd yn cael ei rhannu gyda Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth CBSC y Blynyddoedd Cynnar, Cefnogi Pobl a'r Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Panel Lles Emosiynol Plant.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Bydd Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth CBSC, y Blynyddoedd Cynnar, Cefnogi Pobl a'r Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Panel Lles Emosiynol Plant yn cadw copi o'ch Ffurflen FfATC wedi'i chwblhau, yn cynnal asesiad a bydd wedyn yn rhannu'r Ffurflen FfATC gyda'r gwasanaeth cymorth priodol a all gwrdd â'ch anghenion.

Bydd y gwasanaeth cymorth a ddyrennir yn cadw copi o'ch Ffurflen FfATC wedi'i chwblhau a phan fydd eu gwaith gyda chi wedi'i gwblhau, bydd yn cwblhau adran cau'r ffurflen hon a'i dychwelyd i Wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth CBSC, y Blynyddoedd Cynnar, Cefnogi Pobl a'r Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Panel Lles Emosiynol Plant. Efallai y bydd y gwasanaeth cymorth a ddyrennir yn wasanaeth CBSC neu efallai y bydd gwasanaeth arall yn cael ei gynnig gan sefydliad arall.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio ar gronfa ddata Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a hefyd System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sef system ar y cyd ar gyfer darparwyr gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth am System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar gael o'n gwefan.

www.caerffili.gov.uk/caerphillydocs/foi/privacynotices/wccis_privacy-notice-welsh.aspx

Bydd mynediad at eich gwybodaeth yn cael ei reoli, gan ganiatáu i ymarferwyr perthnasol ddefnyddio'r wybodaeth ofynnol, pan fo'i hangen, i gefnogi darparu gofal diogel i ddinasyddion Cymru.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Bydd darparwyr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth nad ydynt yn ddarparwyr CBSC ond yn cadw'ch Ffurflen FfATC am 4 wythnos ar ôl i chi orffen eu rhaglen ac ar ôl i'r ffurflen gael ei e-bostio'n ddiogel i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Bydd CBSC yn cadw copi o'ch Ffurflen FfATC am 10 mlynedd yn dilyn y dyddiad cyswllt diwethaf mewn perthynas â'r cymorth a ddarperir.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/my-council/data-protection-and-freedom-of-information/questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Mae Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon i'r rhai mewn angen. Mae Cyfadran Gwasanaethau i Blant yn darparu ystod o wasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, mewn partneriaeth â llawer o asiantaethau eraill a sefydliadau gwirfoddol.

Mae FfATC yn cefnogi darparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar ac yn galluogi teuluoedd i gael y gwasanaeth cywir ar yr amser cywir, gan atal rhag gwaethygu ac yn cael eu atgyfeirio at wasanaethau statudol.

Er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn, efallai y bydd angen i ni gasglu gwybodaeth amdanoch chi a/neu eich teulu, yn uniongyrchol gennych chi neu gan eraill. Dim ond gwybodaeth berthnasol y byddwn yn ei chasglu ac mae'r sail gyfreithiol inni goladu a defnyddio'r wybodaeth hon yn dasg gyhoeddus.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio a'u cadw'n ddiogel yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y byddwn ond yn cadw gwybodaeth cyhyd ag y bydd angen.

Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill os oes angen gwneud hynny.  Bydd yr holl rannu gwybodaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth a gedwir amdanoch, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau ar ein gwefan:

www.caerffili.gov.uk/caerphillydocs/foi/privacynotices/jaff-privacy-notice_cy.aspx